**Proffil Gwirfoddolwyr Cartref Gofal**

Bydd y cyfle gwirfoddoli hwn yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi cartrefi gofal wrth iddynt hwyluso lles preswylwyr.

A oes gennych ddiddordeb mewn gweithgaredd gwirfoddoli diddorol ac unigryw? Dyma gyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i breswylwyr cartrefi gofal, staff cartrefi gofal a chi'ch hun.

Byddai'n addas ar gyfer rhywun sydd yn awyddus i gynnig y rhinweddau a'r sgiliau canlynol:

- Sgiliau cyfathrebu da, cadarnhaol
- Dealltwriaeth o gyfrinachedd
- Dealltwriaeth o empathi, ac ymddygiad empathetig ynghylch anghenion pobl hŷn
- Dibynadwyedd, amynedd, a sensitifrwydd
- Diddordeb mewn ymgysylltu â phrosiectau a gweithgareddau
- Clên a hyderus

**Beth allwch chi ei ennill o'r rôl hon?**

Cwrdd â phobl newydd a gwneud ffrindiau mewn amgylchedd cefnogol

- Hyfforddiant a chyfnod sefydlu addas
- Cefnogaeth gan y cartref gofal
- Profiad gwych ar gyfer eich CV, a chyfeiriadau gwaith os oes angen
- Dealltwriaeth o ddementia, sut mae'n effeithio'r rhai sy'n cael diagnosis a'u teuluoedd
- Cyfle i wneud gwahaniaeth go iawn i breswylwyr cartrefi gofal gyda gweithgareddau cyfoethogi
- Datblygu eich hyder a'ch sgiliau cyfathrebu
- Tystiolaeth profiad gwaith os oes angen
- Gwerthfawrogiad o gyfyngiadau symudedd a'r ffordd orau o allu cefnogi pobl hŷn

**Byddwch yn derbyn**

- Hyfforddiant Sefydlu a Diogelu
- Cefnogaeth gan staff y cartref gofal
- Hyfforddiant am ddementia a sut mae'n effeithio ar y rhai sy'n cael diagnosis a'u teuluoedd
- Hyfforddiant mewnwelediad i faterion symudedd

**Ymrwymiad amser:**

Mae gwirfoddoli yn hyblyg a gallwch drefnu cyfnodau o wirfoddoli gan ddibynnu ar eich argaeledd.  Byddai'n ddelfrydol ffurfio patrwm o ymweliadau rheolaidd â'r Cartref Gofal, er hwylustod i chi eich hun a'r Cartref Gofal

**Rheoliadau Covid**

Gwiriwch gyda'r Cartref Gofal am eu diweddariadau diweddaraf ar reoliadau Diogelwch Covid

---

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig ar y llawr gwaelod, Tŷ Mariners, Llys Trident, Ffordd Ddwyrain Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2023